Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg

**Ystafell Bwyllgor 6, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

Dydd Gwener, 15 Rhagfyr 2017 am 11.00am

**Yn Bresennol:** Mr D B Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Cynrychiolwyr Dinas a Sir Abertawe**

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| P M Black | L S Gibbard | L R Jones |
| R V Smith | | |

**Cynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

| **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|
| H James | P A Rees |

**Cynrychiolwyr Sefydliadau Cysylltiedig**

A Dulley - Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu
Mrs J Watkins - Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| G Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| K Collis | Archifydd Sirol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: E J King, W F Griffiths, R L Taylor, A N Woolcock a Dr L Miskell, T McNulty, D Michael a W John

**11 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y ddau awdurdod, a ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**12 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg a gynhaliwyd ar 15 Medi 2017 fel cofnod cywir.

## 13 Materion yn codi

Adroddodd yr Archifydd Sirol ac Andrew Dulley ymhellach ar yr ymholiad a godwyd yn y cyfarfod diwethaf a rhoddwyd y diweddaraf i'r pwyllgor am yr ymchwil gychwynnol yr ymgymerwyd â hi ynghylch y posibilrwydd o sefydlu gwefan Gwasanaeth Archifau ar wahân.

Manylwyd ar yr opsiynau posib a'r costau sylfaenol ar gyfer sefydlu gwefan arbennig neu ardal ar wahân lle gellid storio dogfennau mwy a chael mynediad iddynt drwy dudalen bresennol y Gwasanaeth Archifau ar wefan DASA.

Trafododd y pwyllgor rinweddau'r ddau opsiwn wrth fynd ymlaen, goblygiadau cyllidebol, problemau technegol, ffrydiau incwm posib a gofynnwyd am adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 14 Adroddiad Archifydd y Sir.

Cyflwynodd yr Archifydd Sirol adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2017.

<u>Defnydd o'r gwasanaeth</u>

Adroddodd am ddefnydd o'r gwasanaeth am y chwarter gan fanylu ar gefndir yr ystadegau chwarterol.

Manylodd ar y ffigurau ar gyfer nifer yr ymweliadau â gwe-dudalennau'r Gwasanaeth Archifau a nifer yr ymweliadau â chynnwys y Gwasanaeth Archifau ar wefan Ancestry.

<u>Arddangosfeydd a digwyddiadau</u>

Adroddodd fod arddangosfa 'Our Abertawe: Dathlu Abertawe Gyda'n Gilydd' wedi cael ei harddangos yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ym mis Tachwedd. Bydd yr arddangosfa hefyd yn rhan o raglen amlddiwylliannol ehangach yn Amgueddfa Abertawe'r flwyddyn nesaf.

Cyfeiriodd at y gwaith paratoi sy'n cael ei wneud o ran prosiect i ddathlu 100 mlynedd ers y bleidlais i fenywod, a manylodd ar y cysylltiadau a ddatblygwyd ag Archifau Menywod Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Menywod yn y prosiect hwn. Nododd ei fod, mewn cyfnod o bwysau cyllidebol, yn gwerthfawrogi gwaith partneriaeth y gwasanaeth a byddai'n parhau i weithio gyda grwpiau gwirfoddol adrannau eraill y cyngor a chydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf y ddau awdurdod.

Amlinellodd y digwyddiadau a'r ffeiriau amrywiol yr oedd y gwasanaeth yn bresennol ynddynt yn ystod y cyfnod.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dri digwyddiad a fydd yn cael eu cynnal y flwyddyn nesaf y gallai'r gwasanaeth fod yn ymwneud â hwy o bosib, gan gynnwys canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, a sefydlu Urdd San Ioan a'r Awyrlu Brenhinol.

Amlinellodd yr Archifydd Sirol y sgyrsiau amrywiol a roddwyd mewn ysgolion yn ystod y cyfnod, a defnydd y gwasanaeth o gyfryngau cymdeithasol ar gyfer mentrau megis Wythnos Genedlaethol Darllen Mapiau ac ymgyrch ar draws y DU 'Archwiliwch eich Archif'.

Cyfeiriodd hefyd at hysbyseb y gwasanaeth yn ddiweddar ar Facebook ac amlinellodd ei lwyddiant cymharol.

<u>Polisi Cadwraeth Ddigidol</u>

Cyfeiriodd at y polisi drafft y mae pob awdurdod cyhoeddus ar draws Cymru'n ystyried ei fabwysiadu er mwyn sicrhau ymagwedd gydlynol ar draws Cymru yn y maes cymhleth hwn sy'n ehangu, a chyfeiriodd at y prif ddatganiad o genhadaeth ym mharagraff 4.4 y polisi.

Nododd ei fod yn debygol y bydd rhaid i bob awdurdod ar draws Cymru fabwysiadu'r polisi yn y dyfodol, ac nid y gwasanaethau archifau'n unig, yn enwedig yn dilyn y newid o gofnodion papur i rai 'digidol anedig'. Dyma gofnodion nad ydynt fyth yn bodoli ar ffurf gopi caled.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a mabwysiadau'r polisi.

<u>Cyfarfodydd Proffesiynol a Gweithio Mewn Partneriaeth</u>

Adroddodd ar y cyfarfodydd proffesiynol amrywiol y bu'r staff yn bresennol ynddynt yn ystod y chwarter.

<u>Hyfforddiant</u>

Amlinellodd y cyrsiau hyfforddi amrywiol y bu'r staff yn bresennol ynddynt yn ystod y chwarter.

<u>Casgliadau Archifau</u>

Adroddodd am y rhestr o archifau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth yn ystod y chwarter.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.50 am

**Cadeirydd**